# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD LLUN, 2AIL MAWRTH, 2020**

Lleoliad

**Ystafell Dwyryd, Canolfan gyswllt y Cyngor, Penrhyndeudraeth**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**EirianRoberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 26/02/2020)

# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION
AELODAETH

## AELODAU CABINET
Y Cynghorydd Cemlyn Rees Williams (Addysg)
Y Cynghorydd Ioan Thomas (Cyllid)

## PRIF WEITHREDWR
Mr Dilwyn Williams

## PENNAETH CYLLID
Dafydd Edwards

## PENAETHIAID UWCHRADD
Mr Dylan Davies – Ysgol Dyffryn Ogwen
Mr Dewi Lake – Ysgol y Moelwyn
Mr Dylan Minnice - Ysgol Botwnnog
Mr Arwyn Williams – Ysgol Tryfan

## PENAETHIAID CYNRADD
Mrs Iona Jones - Ysgol Edmwnd Prys/Bro Cynfal
Mrs Menna Wynne Pugh – Ysgol Penybryn
Mr Alan Wynn Jones – Ysgol Nefyn
Mr Richard Derwyn Jones – Ysgol Garndolbenmaen
Mr Llion Williams – Ysgol y Garnedd
Mrs Eleri Morgan Davies – Ysgol Y Gorlan

## UNDEBAU ATHRAWON
Mr Neil Foden – Ysgol Friars

## LLYWODRAETHWYR

Arfon
Mr Godfrey Northam - Ysgol Dyffryn Ogwen
Mr Edward Bleddyn Jones – Ysgol Tregarth

Meirionnydd
Disgwyl enwebiad – Llywodraethwyr Cynradd
Disgwyl enwebiad - Llywodraethwyr Uwchradd

Dwyfor
Mr Gwilym Jones, Ysgol Borthygest,
Disgwyl Enwebiad – Llywodraethwr Uwchradd

## ESGOBAETH
Anest Gray Frazer

## YSGOLION EGLWYS
Mr Elfed Morgan Morris – Ysgol Llandygai

## YSGOLION ARBENNIG
Mrs Donna Roberts - Ysgol Hafod Lon

**Sylwedyddion:**

Mr Garem Jackson, Pennaeth Addysg
Mr Owen Owens, Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau
Mr Hefin Owen, Rheolwr Cyllid y Gyfadran Datblygu
Ms Gwenan Davies Jones - Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd
Ms Ellen Williams - Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

I nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 8

I gadarnhau cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2020.

**5. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

I drafod unrhyw eitemau sydd yn codi o'r cofnodion.

Mae 'Statistical First Release' – balansau ysgolion wedi'i hanfon at aelodau'r Fforwm.

**6. DYRANIAD INTEGREIDDIO** 9

Adroddiad gan Hefin Owen.

**7. STRATEGAETH DIGIDOL YSGOLION** 10 - 11

Cyflwyniad gan Huw Ynyr a Gwern ap Rhisiart

**8. GWASANAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD**

Cyflwyniad gan y Gwasnaeth

**9. GRANTIAU YSGOLION 2020/21 - DIWEDDARIAD**

Cyflwynir y wybodaeth gan Hefin Owen.

**10. DYDDIAD CYFARFOD NESAF**

Bydd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf yn cael ei gylchredeg.

# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION DYDD IAU, 23 IONAWR 2020

**Yn Bresennol:**

**Mr Godfrey Northam – Cadeirydd**

| | |
|---|---|
| **Aelodau Cabinet:** | Y Cynghorydd Ioan Thomas (Cyllid) |
| **Pennaeth Cyllid:** | Dafydd Edwards |
| **Penaethiaid Ysgolion:** | Uwchradd: Dylan Davies (Ysgol Dyffryn Ogwen), Dylan Minnice (Ysgol Botwnnog), Dewi Lake (Ysgol y Moelwyn) ac Arwyn Williams (Ysgol Tryfan).<br><br>Cynradd: Iona Jones (Ysgol Edmwnd Prys/Bro Cynfal), Richard Jones (Ysgol Garndolbenmaen), Menna Wynne Pugh (Ysgol Penybryn), Llion Williams (Ysgol Y Garnedd), Alan Jones (Ysgol Nefyn) ac Eleri Morgan Davies (Ysgol Y Gorlan).<br><br>Eglwys: Elfed Morris (Ysgol Llandygai) |
| **Undebau Athrawon:** | Neil Foden (Ysgol Friars) |
| **Llywodraethwyr:** | Gwilym Jones (Ysgol Borth y Gest) |
| **Swyddogion:** | Owen Owens (Uwch Reolwr Gwasanaethau Adnoddau Addysg), Hefin Owen (Cyfrifydd Grŵp Datblygu), Annes Sion (Swyddog Cefnogi Aelodau) |

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. Cemlyn Williams, Elen Williams (Ysgol Brynrefail) ac Annest Gray Frazer (Esgobaeth). Croesawyd aelodau newydd y Fforwm i'w cyfarfod cyntaf.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion a gynhaliwyd ar 24 Mehefin fel rhai cywir.

## 4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

Mynegwyd o ran ystadegau cenedlaethol o falansau ysgolion nad oedd Gwynedd yn y

man uchaf, a bod Abertawe wedi cyrraedd y brig. Nodwyd fod Gwynedd ar 4.5% ac ar gyfartaledd yn îs nac y 5% mae gofyn iddynt ei gyrraedd. Ychwanegwyd os yn edrych ar falansau uwchradd mae 12 o'r 22 awdurdod yng Nghymru yn y minws.

## 5. BALANSAU YSGOLION 31/03/2020 DROS £50,000 (CYNRADD) NEU £100,00 (UWCHRADD)

Tynnwyd sylw at gofnod y cyfarfod blaenorol ble nodwyd fod holiadur am gael ei anfon i'r ysgolion sydd â balansau dros £50,000 (cynradd) neu £100,000 (uwchradd).

Nodwyd bod 20 ysgol yn disgyn i mewn i'r categori hwn a bod holiaduron wedi'u derbyn yn nodi beth fydd yr ysgolion yn gwneud gyda'r arian. Nodwyd bod rhaid mynd yn ôl at 3 ysgol er mwyn derbyn mwy o fanylder na'r hyn a gyflwynwyd yn eu holiaduron gwreiddiol.

Adroddwyd ymhellach bod:

- Cynllunio ariannol yr ysgolion yn briodol ar sail y rhagolygon oedd ar gael i'r ysgolion adeg llenwi'r holiadur. Felly bod yr Awdurdod ddim am gyfeirio'r ysgolion at unrhyw wariant penodol.

- Roedd nifer o ysgolion yn nodi'r angen i ddefnyddio'r balansau ar gyfer gosod cyllideb y flwyddyn hon neu flynyddoedd ddilynol.

- Roedd lleiafrif o ysgolion yn nodi gwariant un-tro penodol. Roedd hyn yn iawn cyn belled â bo'r gwariant yn cael ei wneud.

- Nodwyd bod angen cadarnhau'r sefyllfa gyfreithiol o ran statws ysgol ddilynol. Ydy ysgol ddilynol yn cyfrif fel ysgol gynradd (efo hawl i gyfeirio balansau >£50k) neu'n cyfrif fel ysgol uwchradd (efo hawl cyfeirio balansau >£100k)?

- Adnabwyd yr angen i holi'r gyfundrefn addysg yn ei gyfanrwydd, yn syth pan fo balansau terfynol ysgolion ar gael (h.y. mis Mai/Mehefin), os y dylai ysgol fod yn buddsoddi mewn rhywbeth penodol er mwyn gwella'r ysgol.

**Penderfynwyd:**
**Derbyn yr adroddiad llafar.**

## 6. RHAGOLYGON YSGOLION 2020/21, 2021/22 A 2022/23

Esboniwyd fod y flwyddyn hon yn flwyddyn unigryw gan nad oedd Fforwm Cyllideb wedi ei gynnal am fis Hydref gan fod y setliad gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn hwyr. Amlygwyd fod y Cyngor wedi gofyn i holl adrannau i ddod o hyd i arbedion o hyd at £2miliwn ar draws y Cyngor. Er mwyn trafod a chraffu'r arbedion hyn esboniwyd fod trafodaethau wedi'u cynnal yn edrych ar arbedion yr holl adrannau. Esboniwyd fod yr Adran Addysg wedi amlygu toriadau amrywiol i ysgolion fel un o'r opsiynau ar gyfer dod o hyd i'w targed arbedion ond fod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi wedi gwrthod yr opsiwn hwn. Yn dilyn derbyn y setliad drafft, amlygwyd fod y Cabinet wedi penderfynu am eleni i beidio gweithredu'r toriadau.

Nodwyd o ran y Strategaeth Ddigidol nad oedd dim i'w nodi ac nad yw'r toriad yma yn cael ei weithredu bellach. Mynegwyd nad oes unrhyw ymrwymiad ariannol i ysgolion yn 2020/21. Ychwanegwyd fod rhai wedi meddwl fod yr arian Cynnal ar gael ar gyfer y

strategaeth ddigidol ond mynegwyd ei fod yn arian ychwanegol. Pwysleisiwyd fod angen trafodaeth bellach ac i flaen gynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf. Felly nodwyd y bydd y Pennaeth Technoleg Gwybodaeth yn mynychu'r cyfarfod nesaf.

Mynegwyd fod Llywodraethwyr wedi derbyn rhagolygon am eleni ac esboniwyd yr addasiadau oedd i'w gweld. Mynegwyd fod 'Integreiddio arall' yn cael ei symud i'r canol rhag ofn y bydd mwy o angen am integreiddio datganiadau. Bydd yr adran yn ymgynghoriad ar opsiynau o beth i wneud gyda'r arian. O ran gwariant parhaol nodwyd y bydd yr ymatebion yn dod yn ôl erbyn 2 Mawrth ac yna ym mynd i drafodaeth yn y Cabinet. Eleni, ategwyd, fod £392,000 yn y canol a thymor y gwanwyn heb ei gyfri eto. Mynegwyd fod llythyr yn cael ei anfon yn egluro'r sefyllfa.

Amlygwyd y llinell newydd yn y rhagolygon ar gyfer ADY o ganlyniad i'r datblygiadau sydd yn digwydd. Er hyn pwysleisiwyd fod angen ei weld cyn gweld clir ei ystyr.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd fod angen anfon y llythyr rhagolygon i'r Ysgolion yn gynt, gan ei fod wedi cyrraedd pnawn cyn y cyfarfod strategol ac felly buasai ei dderbyn yn gynt yn galluogi trafodaeth o safon uwch.
- Trafodwyd ADY gan nodi fod rhai Penaethiaid yn cael mwy o wybodaeth ac eraill gan fod rhai ar hap yn cael ei gwahoddi gyfarfodydd. Pwysleisiwyd pwysigrwydd fod pawb yn cael y wybodaeth mewn digon o amser.
- Holwyd os oes bwriad gan yr adran i drafod ADY gyda'r holl benaethiaid ac Aelodau'r Fforwm gan fod plant yn cael eu hamlygu yn y datganiad ond fod arian yn cael ei dynnu oddi ar ysgolion ar gyfer 1:1. Nodwyd y bydd cyflwyniad ar y cyd a chyllid a'r arweinwyr maes i roi dealltwriaeth a mewnbwn ar sut y bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio.

**Penderfynwyd:**
**Derbyn yr adroddiad a gofynnwyd am adroddiad pellach gyda dadansoddiad ar bapur er mwyn rhoi'r darlun ehangach o waith ADY.**

## 7. GRANTIAU YSGOLION 2020/21

Nodwyd o ran Grant y Chweched fod y rhagolygon yn ymddangos y bydd cynnydd o 8-9% i ymdopi gyda'r cynnydd mewn costau. Er hyn, amlygwyd y bydd angen mwy i ddelio a chostau yn 2020/21.Ychwanegwyd bydd adroddiad y cyfrifwyr ar y 5 Chwefror a bod yr adran yn ffyddiog y bydd arian ar gael.

O ran grant Gwella Addysg nodwyd nad oes bygythiad i'r grant ond nad yw'r adran wedi derbyn unrhyw wybodaeth yn ffurfiol.

Nodwyd fod Grant Ychwanegol ADY o £280,000.

O ran Grant Datblygiad Proffesiynol mynegwyd fod yr arian yn mynd yn ganolog i GwE. Ychwanegwyd y bydd GwE yn nodi sut i ddefnyddio'r arian yn ddibynnol ar ddisgwyliadau'r Llywodraeth.

## 8. SETLIAD DRAFFT - STRATEGAETH ARIANNOL CYNGOR GWYNEDD 2020/21

Pwysleisiodd yr Aelod Cabinet fod y penderfyniad ar Gyllideb y Cyngor yn cael ei wneud gan y Cyngor llawn, nid gan Aelodau'r Cabinet.

Nododd y Pennaeth Cyllid yn ystod yr haf diwethaf eu bod wedi i'r rhagamcan y bydd

angen £2miliwn o arbedion ar draws y Cyngor. Amlinellwyd y prif bwyntiau megis y bydd swm uchel o dros 2% o gynnydd mewn chwyddiant. Nodwyd fod pwysau a galw yn uchel yn y maes gofal.

Er hyn mynegwyd fod y gyllideb yn eithaf positif o ganlyniad i setliad uwch na'r disgwyl, ond nad yw'r setliad grant Llywodraeth yn cyfarch y galw ychwanegol am wasanaethau gofal. Nodwyd o'r £2miliwn o arbedion fod gwerth £1m ohonynt yn arbedion effeithlonrwydd, ac i'w cynhaeafu, ond fod y £1m arall am gael effaith ar bobl Gwynedd, ac felly i'w osgoi. O ganlyniad i hyn mi fydd bwlch gweddilliol o £3miliwn i'w gyfarch drwy godi'r dreth Cyngor 3.9%. Pwysleisiwyd fod trafodaethau yn parhau am y gyllideb.

Esboniwyd fod bid cludiant wedi ei wneud gan yr adran er mwyn ariannu i'r lefel gwariant cyfredol. Eglurwyd fod y setliad grant Llywodraeth yn well nac beth oedd y Cyngor wedi ei ddisgwyl, ac yn cwrdd â chwyddiant, os nad yn cwrdd â'r twf mewn galw am wasanaethau, ac o ganlyniad fod y Cabinet wedi penderfynu peidio cynhaeafu'r cynllun arbedion cyffredinol ar gyfer Ysgolion. Felly, bydd arbedion ddim yn amharu ar y gymhareb disgybl:athro yn y fformiwla dyrannu rhwng 2019/20 a 2020/21.

Esboniwyd nad oedd y sefyllfa yn glir ar gyfer 2020/21 eto, ond bydd rhaid cael penderfyniad y Cyngor llawn ar Gyllideb 2020/21 ar y 5ed o Fawrth 2020.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- O ran cyfraniadau pensiwn athrawon, eglurwyd fod y cynnydd o Fedi 2019, a ni ddisgwylir newid pellach o Fedi 2020.
- O ran cynlluniau arbedion i ysgolion, nodwyd nad oedd y Cabinet am gynhaeafu'r cynllun am Adnoddau staff dysgu. Ychwanegwyd fod Aelodau wedi cefnogi safbwynt ysgolion a bod y sefyllfa ariannol ddiweddaraf wedi galluogi'r Cyngor i allu osgoi'r arbedion hyn.

## 9. CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH

Tywyswyd y Fforwm drwy'r tablau sydd y cynigion ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mynegwyd fod ymgynghoriad wedi ei gynnal ac amlygwyd addasiadau rhwng fersiynau newydd a hen y cytundebau. Mynegwyd fod yr adroddiad yn gofyn am sêl bendith i'r cytundebau.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Amlygwyd fod taenlen wahanol yn y Cyfrifoldebau Awdurdod / Ysgolion yn y cytundeb Eiddo. Mynegwyd fod hyn oherwydd ei fod yn wahanol yn yr Ysgolion Cynradd ac Uwchradd.

**Penderfyniad**
**Rhoddwyd sêl bendith ar gynnig y Cytundebau Lefel Gwasanaeth a oedd i'w gweld fel atodiadau i'r adroddiad hwn i ysgolion.**

## 10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar yr 2il Mawrth ychwanegwyd y bydd y rhaglen yn cynnwys yr isod:

1. Strategaeth Ddigidol
2. Gwasanaeth ADY
3. Dyraniad Intergreiddio

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 y.h. a daeth i ben am 3.50 y.h.

**CADEIRYDD**

**EITEM X**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **FFORWM CYLLIDEB YSGOLION** |
| **DYDDIAD** | **02 Mawrth 2020** |
| **TEITL** | **Dyraniad Integreiddio** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno er gwybodaeth** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Hefin Owen – Cyfrifydd Grŵp Datblygu** |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | **Y Cynghorydd Cemlyn Rees Williams** |

Ar gais y Fforwm yn ei gyfarfod 23 Ionawr 2020, dyma ddadansoddiad o'r Dyraniad Integreiddio ers sefydlu y gyfundrefn ariannu cyfredol yn 2015/16 –

| | | rhaniad y dyraniad | |
|---|---|---|---|
| | | Datganiadau/ CDU | Arall |
| Dyraniad Integreiddio 2015/16 | £5,753,945 | £3,823,551 | £1,930,394 |
| Chwyddiant dros y 5 mlynedd | £964,905 | | |
| Ysgol Hafod Lon – cynnydd niferoedd | -£566,790 | | |
| Arbedion Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad | -£595,370 | | |
| Dyraniad Integreiddio 2020/21 - *amcangyfrif* | £5,556,690 | £5,268,241 | £288,449 |

Mae chwyddiant dros y cyfnod ar gyfartaledd 3.35% yn flynyddol.

Roedd cynllun busnes sefydlu Ysgol Hafod Lon 'newydd' yn rhagweld cynnydd yn niferoedd yr ysgol, disgyblion oedd yn flaenorol mewn ysgolion prif lif gyda datganiad neu gynllun datblygu unigol (CDU).

Roedd arbedion o bron i £600mil wedi'i adnabod o drawsnewid y gyfundrefn Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad.

Mae cynnydd o £1.445miliwn wedi bod yng nghostau Datganiadau/CDU disgyblion yn y prif lif dros y 5 mlynedd diwethaf.

Argymhelliad - derbyn y wybodaeth

**Cynllun Grant Seilwaith Mewn Ysgolion Hwb**

**Cefndir**

Yng Ngorffennaf 2019, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg raglen ariannu i helpu i drawsnewid Technoleg Addysg mewn Ysgolion yng Nghymru. Bydd y fenter £50 miliwn yn defnyddio 'catalog TGCh Cymru Gyfan' newydd fel cyfrwng i helpu awdurdodau lleol i brynu'r cyfarpar addas sydd ei angen ar ran eu hysgolion.

Mae’r cyllid er mwyn sicrhau;

- bod gan ysgolion offer Technoleg Addysg newydd
- gwell dealltwriaeth o seilwaith digidol Cymru Hwb
- bod pob ysgol yn gweithio tuag at Safonau Digidiol Addysg sydd wedi'u cyhoeddi ar Hwb
- gosod y sylfeini ar gyfer seilwaith addysg ddigidol sy'n gynaliadwy
- bydd llai o fiwrocratiaeth i ysgolion, gan ryddhau amser i athrawon a phenaethiaid
- bydd dysgwyr yn gallu manteisio ar brofiadau dysgu gwell a mwy cyson.

Yn unol ac amodau’r cynllun, awdurdodau lleol fydd yn gwasanaethu fel y partner cyflenwi strategol ar gyfer y rhaglen. Rhaid defnyddio'r cyllid yn briodol i sicrhau bod pob ysgol yn cael eu huwchraddio yn unol â'r safon cenedlaethol.

Mae pob awdurdod lleol, gan gynnwys Gwynedd wedi ymrwymo i fod yn gyswllt ar gyfer eu hysgolion ac maent wedi cytuno i egwyddorion craidd safoni, cysondeb ac, yn bwysicaf oll, cynaliadwyedd.

**Rhwydweithiau**

Cyngor Gwynedd sydd yn darparu a chynnal rhwydweithiau ysgolion Gwynedd. Mae’r grant yn ein galluogi i adnewyddu’r rhwydwaith er mwyn cyrraedd y safon cenedlaethol. Byddwn yn uwchraddio pwyntiau rhwydwaith di wifr, cabinets rhwydwaith a gosod ceblau newydd lle bo’r angen.

Yr ydym wedi archebu’r caledwedd er mwyn uwchraddio’r rhwydwaith ac fe fydd y gwaith o fewnosod rhain yn digwydd dros y ddau dymor nesaf.

**Cynaliadwyedd**

Mae’r cyngor wedi ymrwymo i gynaliadwyedd yr offer yma ac felly ni fydd oblygiadau cost ar ysgolion pan y bydd yr offer a osodi’r drwy’r grant yn cyrraedd diwedd ei oes.

Yr ydym wedi buddsoddi’n agos i £1.4m o’r grant eleni ar galedwedd i uwchraddio’r rhwydwaith.

**Dyfeisiadau**

Mae asesiad o niferodd a chyflwr dyfeisiadau ar draws ysgolion Gwynedd wedi ei gwblhau. Mae’n dangos fod ystod eang o ddyfeisiadau ar gael yn ein ysgolion. Fodd bynnag mae llawer ohonynt wedi dyddio gyda phrofiadau’r staff a’r plant yn cael ei effeithio. Mae’r ffactorau yma hefyd yn rhoi pwysau sylweddol ar yr angen i gynnal a chadw’r offer.

Mae Strategaeth Addysg Ddigidol yr adran addysg wedi gosod uchelgais o ran cyfradd dyfais i blentyn, 1:4 yn y cyfnod sylfaen gyda 1:1 y CA2, CA3 a CA4. Yn ogystal mae’r strategaeth wedi amlygu’r angen i roi dyfais i bob athro/awes ac i nifer o’r staff cynhaliol.

Byddai peidio a chynnal cyfradd 1:1 yn y sector uwchradd yn golygu cadw elfennau o’r hen system ac yn golygu cynnydd sylweddol mewn costau cynnal a chadw’r offer. Yr ydym yn amcangyfrif y bydd angen ***13,676*** o ddyfeisiadau.

Cyhoeddwyd 'catalog TGCh Cymru Gyfan' yn hwyr ar 26/02/2020, gyda’r prisiau o’r catalog yn cael eu adlewyrchu isod yn erbyn poblogaeth cyfredol ein ysgolion.

Cyfnod Sylfaen (128GB Apple iPad): £332.50,

Cyfnod Allweddol 2 (Gliniaduron Chromebook a Windows): £177.91

Cyfnodau Allweddol 3 a 4 (Gliniadur Windows): £157.67

Staff Dysgu (Gliniadur Windows): £389.27 (£183.77 ychwanegol ei angen ar gyfer Docking Station, 24" Monitor, Bysellfwrdd & Llygoden)

Er mwyn prynu'r dyfeisiadau felly byddai'n rhaid buddsoddi **£2,908,205.02**

Mae'r grant yn ein galluogi i brynu'r dyfeisiadau yma.

**Cynaliadwyedd**

Yn seiliedig ar gylch adnewyddu o 5 mlynedd mae'n rhaid canfod 20% o gost y dyfeisiadau yma bob blwyddyn am y 5 mlynedd nesaf. Ar ddiwedd y 5 mlynedd byddwn yn cyflwyno set newydd o ddyfeisiadau.

| | **Nifer disgyblion** | **Nifer cyfrifiaduron (ar sail ratio)** | **Cost (ar sail ratio)** | | **Cyfraniad adnewyddu** | **Cost y disgybl** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CS** | 3,530 | 883 | £ 293,431.25 | | £58,686.00 | £16.62 |
| **CA2** | 5,150 | 5,150 | £ 916,242.16 | | £183,248.43 | £35.58 |
| **CA3 a 4** | 6,455 | 6,455 | £ 1,017,759.85 | | £203,551.97 | £31.53 |
| **Cyfanswm** | 15,135 | 12,488 | £ 2,227,433.26 | | £ 445,486.65 | £29.43 |

| Athrawon | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer athrawon** | **Nifer cyfrifiaduron (ar sail ratio)** | **Cost (ar sail ratio)** | | **Cyfraniad adnewyddu** | **Cost y disgybl** |
| **Pob ysgol*** | 1,188 | 1,188 | £ 462,452.76 | | £92,490.55 | £6.11 |

* £218,319 ei angen ar gyfer Docking Station, Monitor, Bysellfwrdd a Llygoden. Nid yw'r rhain wedi eu cynnwys yn y costau adnewyddu gan y dylent oresgyn y cyfnod adnewyddu.

Fe fyddai cost cynaliadwyedd y cynllun felly'n £537,976 ar gyfer y ddau sector gyda **£280,939 o'r cynradd** a **£257,038 o'r uwchradd**.

Ar gyfer ysgolion cynradd byddai disgwyl i ysgol sydd a **100 o blant gyfrannu tua £3,250**, ysgol sydd a **200 o blant £5,900** ac ysgol a **300 o blant £9,500**.

Mae'r tabl isod yn amlygu **amcan gost** cynaliadwyedd y cynllun ar gyfer yr uwchradd.

| **YSGOL / SCHOOL** | Cyfanswm |
|---|---|
| Ardudwy | £ 12,723.13 |
| Botwnnog | £ 17,022.62 |
| Bro Idris (Ysgol 3-16) | £ 11,612.64 |
| Brynrefail | £ 24,428.27 |
| Dyffryn Nantlle | £ 14,186.52 |
| Dyffryn Ogwen | £ 16,213.59 |
| Eifionydd | £ 15,052.72 |
| Friars | £ 44,842.83 |
| Glan y Môr | £ 19,266.51 |
| Syr Hugh Owen | £ 28,662.73 |
| Tryfan | £ 13,058.23 |
| Tywyn | £ 13,418.84 |
| Godre'r Berwyn | £ 13,234.61 |
| Y Moelwyn | £ 13,314.43 |

**Oblygiadau cyllidol ar ysgolion yn 2020/21**

Nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw ofyn ar ysgolion i gyfrannu tuag at gynaliadwyedd y cynllun yn y flwyddyn gyllidol nesaf.

Mae hyd at £800,000 ar gael ar gyfer dyfeisiadau eleni. Heb ymrwymiad i gynaliadwyedd y buddsoddiad hwn ni ellir gwario'r grant.

Fel arwydd o ymroddiad y cyngor i'r Strategaeth Addysg Ddigidol ac ein ymrwymiad i sgiliau digidol ein dysgwyr mae'r adran addysg yn dymuno buddsoddi yng nghynaliadwyedd y cynllun hwn.

Bydd unrhyw fuddsoddiad gan yr adran yn lleihau cost cynaladwyedd ar ysgolion.